

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 17.6.2014

Presennol

Ei Deilyngdod Y Maer – Cynghorydd W R Owen

Cynghorwyr

B Owen, W T Owen, I C Thomas, H Edwards, H W Roberts,
A W Bohana, G Thomas, A Hopcyn, E Lovgreen, E Hughes, T Thomas,
K Williams

Siaradwr Gwadd : Alun Jones (yn lle Huw Williams), Cynllun Rheoli Traethlin

Nodwyd bod y ddogfen wedi mabwysiadu gan Cyngor Gwynedd bellach a disgwyd i Lywodraeth Cymru ei fabwysiadu .

Y llefydd a ddioddefodd yn ystod y llifogydd mawr oedd

- Foryd
- Ffordd Santes Helen
- Crown St
- Waterloo port – angen cyfarfod a'r trigolion

Un swyddog sydd i'r ardal yma

Llawer o waith yn digwydd yn Fairbourne trwy gydweithio efo'r trigolion lleol. Mae rhaglen “week in week out “ wedi ffilmio yno ac angen ceisio cyfleu yr elfen mwy positif trwy gydweithio a'r gymuned leol

Gofynnwyd beth oed cynllun hir dymor i Santes Helen, a nodwyd mae cynllun “at y llinell” sydd yna ar hyn o bryd ac yn debygol o aros . Posib o fwy o lifogydd dros y blynyddoedd. Prinder arian yw'r broblem

Mewn cyfarfod blaenorol lle roedd Gareth Wright wedi siarad cafwyd argymhelliad y byddai cynllun i wella'r ardal felly gofynnwyd am gadarnhad un ffordd neu llall

Gofynnwyd os oes modd cael “dredger “ yn nol – arian yw'r broblem

1. Ymddiheuriadau

Cyng M Thomas, Cyng W L Davies, Cyng C Williams, Cyng A Kirk

2. Cyhoeddiadau'r Maer

Cychwyn Ras y Cestyll

Cychwyn yr Etape – digwyddiad hynod lwyddiannus unwaith eto

Dymuno gwellhad buan i Cynghorydd W L Davies sydd bellach wedi gael ei driniaeth

Dymuno gwellhad buan i'r Cyn Faer Mr Ron Kirk sydd yn yr ysbyty

Safodd pawb am funud fel arwydd o barch i gyn Faeres y dref a fu farw yn ddiweddar sef Mrs Marian Williams

3. Datgan Buddiant Personol

W T Owen –cynllunio a Trwyddedu

I C Thomas a H Edwards – Trwyddedu

E Iovgreen – eitem 11 llythyr diolch Gefeillio

4. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

- Cais cynllunio ychwanegol – dileu tan y Cyngor nesaf ac egluro wrth Cyngor Gwynedd mai dyna sydd yn digwydd. Cyngorwyr angen dod i mewn i'w astudio gan bod yn ddogfen swmpus
- Planters – ethol cynrychiolwyr

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 3 Mehefin 2014

Penderfynwyd

Derbyn fel rhai cywir

6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau cynllunio a trwyddedu

Penderfynwyd

1. C14/0372/14/LL **Cytuno**
Creu mannau parcio/Create parking spaces

Ffordd Marchlyn, Caernarfon
Amended Plans - 28.05.14

2. C14/0477/14/HY **Cytuno – ond gofyn i’r Cwmni**
Gosod arwyddion ffsgai wedi eu **ystyried i’r ail ran o’r arwydd fod**
goleuo/Siting of illuminated fasca **ddwyieithog sef - ‘top brand at low**
signs **prices’**

Homebargains, Stryd Bangor, Caernarfon

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau i’w talu

Penderfynwyd

Derbyn a’u talu

8. Dogfen Weithredol y Cyngor

Angen diweddarau pwynt arwyddion electroneg, placiau Rhyfel Boar, planters, cctv – angen cyfarfod

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

9. Gorchymyn Cyngor Gwynedd

Gwaharddiad trafndiaeth trwodd dros dro – Y Maes

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

10. Unllais Cymru - Newyddion Gwanwyn

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

11. Llythyr diolch Gefeillio

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

12. Cofnodion cyfarfod a Maer Trelew

Meddwl tybed fedr y wasg helpu efo achub y plac

Cafwyd eglurhad a chopi o gytundeb awgrymedig gan Maer Trelew

oedd yn nodi hanes y ddwy dref a'r weledigaeth o gyfeillgarwch

ffurfiol rhwng y ddwy dref . Nodwyd mae costau bychain i ddarparu

arwyddion

Penderfynwyd

Cefnogi yn unfrydol i'r syniad o gyfeillgarwch swyddogol rhwng y ddwy dref

13. Adroddiad ar lafar gan Cyng. E. Hughes ar bapur gwyn Bwrdd Iechyd

Cafwyd copi o daflen i bawb a nodi sut oedd unigolion yn medru ymateb trwy 'r linc priodol

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth a diolch am y manylion

14. Adroddiad ar lafar o gyfarfod partneriaeth gan Cyng A. Hopcyn

Cafwyd adroddiad am y pwyllgorau oedd wedi cyfarfod yn ystod y

flwyddyn . Cyflwyniad graenus iawn gan Lawrence Smith am

ddatblygiadau ardal y promenâd a'r rheilffordd. O safbwynt yr ochr

digwyddiadau mae cais grant i mewn i'r Cyngor Celfyddydau . Efallai

bod modd defnyddio rhywbeth tebyg yn y dyfodol ar gyfer Gŵyl

Fwyd os oes modd cael linc celfyddydol .

Nodwyd bod dull gweithredu y partneriaeth yn newid i fod yn

electroneg trwy ddwylo Cyngor Tref (ond bod modd cyfarfod os oedd

angen) . Cyng E Hughes wedi ei hethol yn Gadeirydd

Penderfynwyd

Derbyn yr adroddiad a diolch amdano

15. Ymateb CADW

Pâr: Amgueddfa RWF

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

16. Goleuadau Nadolig

Egluro bod y cynllun wedi dod i ben ac unai angen cario mlaen am flwyddyn neu tendro

Penderfynwyd

Cario ymlaen am flwyddyn a mynd ati i dendro yn fuan iawn ar gyfer flwyddyn nesaf

17. Cwestiynau

Oes posib llongyfarch y rhai lleol sydd wedi llwyddo cael eu dewis i'r gemau Gymanwlad ? ac efallai i'r wasg cydnabod

Oes

18. Planters

Ethol cynrychiolwyr i gyfarfod swyddogion a siambr fasnach i benderfynu ar leoliadau terfynol

Penderfynwyd

I Cyng E Hughes, Cyng G Thomas, Cyng H Edwards,
Cyng H W Roberts a'r clerics i fynychu

Gorffennodd y Cyfarfod am 7.10

Arwyddwyd Dyddiad